

Senotaff a Gardd Gofio

Mae'r gwaith ar yr ardd Senotaff wedi'i gwblhau erbyn hyn a hynny yn dilyn oedi nad oedd modd ei osgoi yn sgil y rheoliadau Covid. Mae tair coeden ar ddeg a chwe llwyn sbesimen wedi'u plannu unwaith eto i goffáu dynion Dolwyddelan a fu farw wrth frwydro yn y ddau ryfel byd. Y tro hyn bu inni blannu coed Bedw Arian 'Moonbeam' sy'n tyfu'n ara' deg ac yn gallu goddef amodau sych, gwlyb a gwyntog (sy'n ddelfrydol ar gyfer Dolwyddelan). Mae llwyni wedi'u plannu rhwng y coed ynghyd â channoedd o fylbiau'r gwanwyn.

Hoffai Cyngor Cymuned Dolwyddelan estyn diolch i'r bobl a'r mudiadau canlynol am eu cymorth gyda'r gwaith adfer. Bu'n brosiect cymunedol gwirioneddol a byddai wedi bod yn amhosib ei reoli heb gymorth a sgiliau'r unigolion canlynol. . .

Cronfa Cyfamod y Lluoedd Arfog

Alan Farrar – staff Gwasanaethau Coed ALFA

Mike Finch – Gwasanaethau Garddio Mr Mow It All a'i staff

Iwan Lloyd Davies, Tŷ Llwyd

Gwirfoddolwyr Cymunedol Dolwyddelan

Aelodau Dolwyddelan yn ei Blodau

Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Dŵr Cymru

